Pennod IV A

RHEOLIADAU YN YMWNEUD Â CHYNHADLEDD YR ESGOBAETH

REGULATIONS RELATING TO THE DIOCESAN CONFERENCE

Chapter IV A

PENNOD IV A

RHEOLIADAU YN YMWNEUD Â CHYNHADLEDD YR ESGOBAETH

Rhan I: **Cynnull Cyfarfod Arbennig**
1

Rhan II: **Busnes a Thrafodion**
2
3
4
5
6

CHAPTER IV A

REGULATIONS RELATING TO THE DIOCESAN CONFERENCE

Part 1: Convening a Special Meeting
1

Part II: Business and Proceedings
2
3
4
5
6

Rheoliadau'r Corff Llywodraethol yn ymwneud â Chynhadledd yr Esgobaeth

Yn unol â'i alluoedd o dan Bennod II y Cyfansoddiad, y mae'r Corff Llywodraethol trwy hynyma yn gwneud y rheoliadau a ganlyn o dan y teitl "Rheoliadau'r Corff Llywodraethol yn ymwneud â Chynhadledd yr Esgobaeth", a draethir fel a ganlyn:

Rhan I: Cynnull Cyfarfod Arbennig

Rhan II: Busnes a Thrafodion

Rhan I: Cynnull Cyfarfod Arbennig

1.1 Gall yr Esgob yn ôl ei ddoethineb orchymyn i'r Ysgrifennydd alw cyfarfod arbennig o'r Gynhadledd, a bydd yn rhaid iddo wneud hynny os caiff gais ysgrifenedig wedi'i arwyddo gan o leiaf chwarter aelodau'r Gynhadledd.

1.2 Bydd yr Ysgrifennydd ar hynny yn cynnull y cyfarfod arbennig hwnnw trwy rybudd ysgrifenedig a fydd yn enwi'r materion a drafodir ynddo.

1.3 Anfonir y rhybudd am gyfarfod arbennig o'r fath at bob aelod o leiaf saith niwrnod cyn y diwrnod a bennwyd ar gyfer cynnal y cyfarfod.

1.4 Ni thrafodir mewn unrhyw gyfarfod arbennig unrhyw fater ac eithrio'r hyn a enwyd yn y rhybudd a'i cynullodd.

Rhan II: Busnes a Thrafodion

2. Bydd gan y Llywydd bleidlais fwrw.

3. Etholir y Gynhadledd bob tair blynedd a bydd yn cyfarfod o leiaf unwaith bob blwyddyn.

4.1 O leiaf saith niwrnod cyn cyfarfod cyntaf pob eisteddiad o'r Gynhadledd, bydd Ysgrifennydd y Gynhadledd yn paratoi ac yn cyhoeddi rhestr o'i haelodau, a bydd y rhestr honno, wedi i'r Esgob ei harwyddo, yn dystiolaeth derfynol mai'r rhai a enwir ynddi, a hwy'n unig, yw aelodau'r Gynhadledd.

4.2 Bydd cywirdeb y rhestr honno yn agored i apêl at y Canghellor.

5. Bydd yn rhaid wrth bresenoldeb yr Esgob neu ei Gomisari, neu Lywydd y Corff Llywodraethol, neu'r Esgob Cadeiriol nesaf mewn blaenoriaeth neu ei Gomisari, ynghyd â chwarter yr aelodau clerigol a phumed rhan yr aelodau lleyg cyn y gellir ffurfio cyfarfod o'r Gynhadledd.

6. Ni fydd methiant ar ran unrhyw fro neu ardal i ddychwelyd aelodau yn rhwystro'r Gynhadledd rhag mynd ymlaen â'i gwaith.

Governing Body Regulations relating to the Diocesan Conference

In exercise of its powers under Chapter II of the Constitution the Governing Body hereby makes the following regulations entitled "Governing Body Regulations relating to the Diocesan Conference" which are set out as follows:

Part I: Convening a Special Meeting

Part II: Business and Proceedings

Part I: Convening a Special Meeting

1.1 The Bishop may at his own discretion, and shall, at a request in writing signed by not less than one-fourth of the members of the Conference, instruct the Secretary of the Conference to convene a special meeting of the Conference.

1.2 The Secretary shall thereupon convene such special meeting by a notice in writing, stating the business to be transacted thereat.

1.3 The notice of such special meeting shall be sent to all members at least seven days before the day fixed for holding the meeting.

1.4 No business shall be transacted at a special meeting other than that stated in the notice convening the same.

Part II: Business and Proceedings

2. The President shall have a casting vote.

3. The Conference shall be elected triennially and shall meet not less than once a year.

4.1 The Secretary of the Conference, at least seven days before the first meeting of each session of the Conference, shall prepare and publish a list of the members, and the said list, when signed by the Bishop, shall be conclusive evidence that those named on it and none other are the members of the Conference.

4.2 The accuracy of such list shall be the subject of appeal to the Chancellor.

5. The presence of the Bishop or his Commissary, or of the President of the Governing Body, or the Diocesan Bishop next in order of precedence or his Commissary, together with one-fourth of the clerical members and one-fifth of the lay members, shall be necessary to constitute a meeting of the Conference.

6. The failure of any district or area to return members shall not prevent the Conference from proceeding with the despatch of business.

Cynhyrchwyd gan Adran Gyhoeddiadau yr Eglwys yng Nghymru.
Argraffwyd ar ddefnyddiau a ailgylchwyd
Produced by the Church in Wales Publications Department.
Printed on recycled materials